

Llandrillo-yn-Rhos | Bae Cinmel | Towyn

# Bae Colwyn

Y CANLLAW POCED 2018/19



#CREUATGOFION

# Ar lan y Môr



## Mae arfordir hardd Conwy yn cynnig lluo brofiadau glan môr arbennig.

Ewch am dro ar hyd Llwybr arloesol Arfordir Cymru, y cyntaf o'i fath yn y byd. Ewch am dro bach neu am daith hirach – neu ewch ar feic – er mwyn dod i adnabod ein harfordir eang, agored, cyffrous.

Mae digon o bethau i'w gwneud ac i'w gweld ar hyd ein harfordir. Mae traeth di ben draw Bae Cinmel yn atynnu llawer o ymwelwyr i'r traeth, tra fo Llandrillo-yn-Rhos yn bentref hamddenol tawel rhwng trefi glan môr prysurach Bae Colwyn a Llandudno.

Ym Mae Colwyn mae datblygiad uchelgeisiol Porth Eirias wedi rhoi bywyd newydd i'r arfordir (a'r traeth!). Yma mae bwyty glan môr dymunol sy'n cael ei redeg gan y cogydd enwog Bryn Williams a chanolfan weithgareddau chwaraeon môr prysur, felly mae'r promenâd yn profi adfywiad arbennig.

## GWYLIAU A DIGWYDDIADAU

Peidiwch â cholli allan! Ewch i'n gwefan i weld yr holl ddigwyddiadau mawr sy'n cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn yn Sir Conwy. [dewchigonwy.org.uk](http://dewchigonwy.org.uk)



08



10



14

# Y STORI YN LLAWN

- 04 Trefi a Phentrefi Arfordirol
- 08 Treftadaeth a Diwylliant
- 10 Hwyl i'r Teulu
- 13 Eirias
- 14 Cyffro ac Antur
- 18 Cerdded a Bywyd Gwyllt
- 22 Gwybodaeth i Ymwelwyr
- 23 Map o Fae Colwyn



Mae'r symbol hwn yn nodi atyniadau sydd fel arfer yn agored trwy'r flwyddyn.



## COFIWCH!

Tra ydych yma, gallwch ganfod pa ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal, lleoedd i ymweld â nhw a phethau i'w gwneud yn y Pwynt Gwybodaeth i Dwristiaid yn Llandrillo-yn-Rhos. Ac os nad ydych eisoes wedi dod o hyd i rywle i aros, cymrwch olwg ar y llety sydd ar gael ar ein gwefan.



# Trefi A PHENTREFI Arfordirol

## LLANDRILLO-YN-RHOS

Tlws yw popeth bychan yn achos y dref lan-môr hon a saif rhwng y brodyr mawr, Llandudno a Bae Colwyn.

Mae'n biti na fyddai pob tref lan-môr yr un fath â hon - yn daclus, yn ddilychwin ac yn dawel. Mae'r rhodfa hir yn ymestyn ar hyd y lan o Fae Colwyn at forglawdd Llandrillo-yn-Rhos, lle ceir harbwr bychan sy'n eich atgoffa o bentref ar arfordir Gorllewin Cymru.

Mae dyfroedd arfordirol disglair Llandrillo-yn-Rhos yn boblogaidd â selogion chwaraeon dŵr a physgotwyr, tra bo cerddwyr a beicwyr yn mynd am lwybr di-draffig y promenâd. Nid dim ond y promenâd traddodiadol ac awyr ffres y môr sy'n denu cerddwyr. Gallwch ddechrau eich taith trwy ymweld â Chapel Sant Trillo, adeilad bychan bwaog ar Rhos Point. Saif ar safle ffynnon iachusol hynafol, a hon yw'r eglwys leiaf ym Mhrydain, gyda lle i ddim ond chwech o addolwyr. Mae Capel Sant Trillo yn un o 26 safle hanesyddol ar Lwybr Treftadaeth gylchol Llandrillo-yn-Rhos, sydd hefyd yn eich arwain i Lys Euryrn, lle gallwch weld gweddillion y fryngaer o'r Ged ganrif a mwynhau golygfeydd eang.

Mae'r thema 'tlws yw popeth bychan' yn parhau yn Theatr Bypedau'r Harlequin, un o atyniadau enwocaf Llandrillo-yn-Rhos o bosib! Atyniad 'mini' arall yw cwrs golff 'mini' Rhos Fynach. Cwrs golff gwyllt gyda thema forwrol llawn hwyli, a chanddo dyllau sy'n cynnwys 'The Surfboard', 'Pirate's Skull' a 'Submarine'. Ewch am dro ar hyd y brif stryd a chymrwch olwg ar y siopau. Maen nhw i gyd yn fach ac mae'r mwyafrif yn rhai annibynnol. Ceir siop fferm sy'n orlawn o gynnyrch ffres, ynghyd â siopau hen bethau, rhai sy'n gwerthu atodion i'r cartref a gemwaith...mae yno siop sy'n gwerthu gwisgoedd cyfnod hyd yn oed. A cheir dewis ardderchog o gaffis a bwytaf hefyd.

## ATYNIADAU A LLEFYDD O DDIDDERDEB

- 1 Man Chwarae Plant a Phwll Padlo..... B5
- 2 Gerddi Combermere..... D5
- 3 Canolfan Gymuned..... D4
- 4 Maes Criced..... C3
- 5 Teithiau Pysgota..... D5
- 6 Ollion Llys Euryrn..... E1
- 7 Theatr Bypedau'r Harlequin..... E5
- 8 Parc Rhos (Bowlio a Tennis)..... C3
- 9 Capel Sant Trillo..... A4
- 10 Rhos Point..... B5
- 11 Golf Gwyllt..... C5
- 12 Gym Awyr Agored i Oedolion .. C5

## EGLWYSIA MANNAU

### ADDOLI

(Rhifau mewn cromfachau'n cyfeirio at eglwysi)

- Cynulliad Duw ..... (1) C4  
 Eglwys yng Nghymru..... (2) E4  
 Methodistaidd ..... (3) D3  
 Eglwys Ddiwygiedig Unedig..... (4) B4



2 Atyniad / Lle o Ddiddordeb

i Pwynt Gwybodaeth i Ymwelwyr

★ Swyddfa Bost

→ Stryd Unffordd

P Maes Parcio Talu ac Arddangos

Toiletau

Toiled hygyrch gyda chlo Cynllun Allwedd Cenedlaethol (RADAR)



# BAE COLWYN

**Mae'r ehangder o arfordir o Landrillo-yn-Rhos i Fae Colwyn a thu hwnt wedi'i drawsnewid yn aruthrol, gyda phrosiectau ac atyniadau newydd yn bywiogi'r lle.**

Mae datblygiad glan-môr Porth Eirias yn prysur ddoe yn atyniad mawr ar arfordir Gogledd Cymru. Ceir bistro sy'n cael ei redeg gan y cogydd enwog Bryn Williams, ynghyd â phob math o hyfforddiant chwaraeon dŵr a ddarperir gan Chwaraeon Dŵr Bae Colwyn.

Ond nid dim ond cynnwrf y dyfroedd sydd gennym i'w gynnig. Mae ein manau gwyrdd yr un mor arbennig ac mae'r pleser mewn garddio yn dal i dyfu. Unwaith eto, mae'r dref wedi ennill gwobr Cymru yn ei Blodau am ei sioe o flodau - am y 15fed flwyddyn yn olynol.



Mae Parc Eirias yn werddon 50 erw braf gyda llyn cychod, lawnt fowlio, lle chwarae i blant ynghyd â Chanolfan Hamdden Colwyn sy'n cynnwys pwll nofio, cyrtiau sboncen a chanolfan ffitrwydd.

Yn ogystal, y parc hwn yw cartref Stadiwm Zip World, sy'n lleoliad chwaraeon o'r radd flaenaf lle cynhelir gemau undeb rygbi nodedig a chyngherddau awyr agored poblogaidd.

Prif atyniad Bae Colwyn yw Sw Fynydd Cymru a saif mewn lleoliad panoramig ar ochr y bryn. Mae'n sw gadwraeth ofalgar sy'n gartref i nifer o rywogaethau prin a rhai sydd mewn perygl o bob cwr o'r byd, yn cynnwys llewpardiaid yr eira, pandas coch, teigrod Sumatra, tsimpansiaid, a morloi clustiog California.

Bae Colwyn yw'r lle perffaith am ddiwrnod o therapi siopa hefyd. Mae llawer o'n siopau annibynnol ardderchog yn fusnesau teuluol. Os ydych yn chwilio am eich fferynnau stryd fawr, mae gennym y rheiny hefyd. Yn ogystal, mae gennym un o ganolfannau siopa mwyaf y rhanbarth ynghyd â lle i barcio am ddim. Mae'r farchnad ffermwyr wythnosol, sy'n gwerthu popeth, o borc organig i jamiau a phiclau, yn cael ei chynnal bob dydd lau yng Nghanolfan Siopa Bay View. Ewch i chwilio am fargen yn y farchnad stryd bob dydd Mawrth a dydd Sadwrn.



## ALLWEDD

Rheilffordd gyda gorsaf	Parc Coedwig Gwydyr	Canolfan Groeso
Ffin Parc Cenedlaethol Eryri	Copa Mynydd	Pwnt Gwybodaeth i Ymwelwyr

## ABERGELE A PHENSARN

Yn wynebu'r Gogledd, mae promenâd poblogaidd Pensarn gyda pheiriannau chwarae clasurol a thraeth graeanog hyfyd. Ymhlith y safleoedd hanesyddol yn nhref farchnad hynafol Abergele, mae eglwys blwyf Sant Mihangel sy'n dyddio o'r 15fed ganrif. Mae'r dref yn fan cychwyn ardderchog i gerdded yn y wlad o'i hamgylch, neu chwarae ambell rownd o golf ar y cwrs 18-twll rhagorol.



## TOWYN A BAE CINMEL

Yn y rhan brysur hon o'r arfordir, ceir milltiroedd o draeth tywodlyd eang ac mae'n cynnig hwyli glan-môr clasurol i'r teulu. Mae Bae Cinnel yn boblogaidd ar gyfer canwio a barcudfyrddio. Mae'r harbwr tlws yn fferynn ymhlith hwylywyr a physgotwyr fel ei gilydd. A'r drws nesaf, mae casgliad Towyn o ddiwyfion ac adloniant ger y traeth yn hynod o boblogaidd ar gyfer ymwelwyr. Mae'r ardal yn adnabyddus ac yn boblogaidd i filoedd fel canolfan garafanio. Ewch i Dir Prince a Pharc Hwyl Knightly's am rywbeth i ddiwyfyr'u teulu cyfan.

# TREFTAETH A DIWYLLIANT

Eglwys leiaf Prydain, bryngaer hanesyddol ac adfeilion plasty yw rhai o'r pleserau sydd i'w canfod ar Llwybr Treftadaeth Llandrillo-yn-Rhos. Mae olion oes aur tref gyfagos Bae Colwyn, fel cyrchfan wyliâu brysur, yn dod i'r amlwg ym mlaenau cain y siopau a'r adeiladau talcennog - dilynwch lyfryn Llwybr Treftadaeth Bae Colwyn i ddarganfod mwy. Ac yna mwynhewch sioc neu ffilm yn Theatr Colwyn. Dywedir mai'r perl Fictoriaidd hwn, a adeiladwyd ym 1885, yw'r theatr hynaf sy'n dal yn weithredol yng Nghymru.

Llys Eurn, Llandrillo-yn-Rhos



## LLWYBR TREFTAETH LLANDRILLO-YN-RHOS

Mae'r llwybr yn mynd â chi heibio lleoliadau hanesyddol y dref, gan gynnwys bryngaer hynafol Bryn Eurn, adfeilion Llys Eurn sy'n dyddio o'r unfed ganrif ar bymtheg, a adeiladwyd ar safle palas o'r drydedd ganrif ar ddeg, ynghyd â chapel bach Sant Trillo ar y lan, sy'n dyddio o'r 6ed ganrif. Ewch i nôl copi o daflen y llwybr o'r Pwynt Gwybodaeth i Dwristiaid.

## TAITH GERDDED BAE COLWYN

01492 577510

[colwynbayheritage.org.uk](http://colwynbayheritage.org.uk)

Nid yw Bae Colwyn y dyddiau a fu, sef cyrchfan lan-môr ffasiynol oedd yn hoff gan deithwyr cefnog, brentiedig, wedi diflannu'n llwyr. Mae olion hen gyfoeth, godidogrwydd ac ysbryd yr oes honno'n dal i'w gweld ym mhensaerniaeth yr hen dref. Cewch ei weld wrth i chi ganfod 29 lleoliad Llwybr Treftadaeth Bae Colwyn. Mae'r llwybr ar gael i'w lawrlwytho o wefan Grŵp Treftadaeth Bae Colwyn.

## LLWYBR TREFTAETH YMATEB CYFLYM (O)R) PARC EIRIAS

[colwynbayheritage.org.uk](http://colwynbayheritage.org.uk)

Mwynhewch y daith gylchol o ddwy filltir sy'n archwilio hanes y parc. Dilynwch y Llwybr gan ddefnyddio'r 20 man Ymateb Cyflym i ganfod yr agweddau annisgwyl ar dreftadaeth

y parc, gan gynnwys sŵ, llyn cychod, deinosoriaid, pypedau a chylch gerrig yr orsedd. Mae map o'r llwybr ar gael ar y wefan.

## ORIEL COLWYN

01492 577888

[orielcolwyn.org](http://orielcolwyn.org)



Mae Oriel Colwyn yn oriel arbennig sy'n arddangos ffotograffiaeth a gwaith ffotograffig. Wedi'i lleoli i fyny'r grisiau yn adeilad Theatr Colwyn, nid oes tâl mynediad a gellir mynd i weld yr arddangosfeydd ar y rhan fwyaf o ddyddiau yn ystod yr wythnos, rhwng 10 o'r gloch y bore a 5 o'r gloch y prynhawn, ac yn ystod oriau agor arferol y theatr a'r sinema. Mae Oriel Colwyn yn fan arddangos amlwrpas ac felly ni fydd mynediad yn bosib bob amser. Ffoniwch ymlaen llaw cyn teithio.

## THEATR COLWYN

01492 577888

[theatrcolwyn.co.uk](http://theatrcolwyn.co.uk)



A honno yng nghalon Bae Colwyn ers iddi agor fel lleoliad am y tro cyntaf ym 1885, mae Theatr Colwyn yn dangos rhaglen amrywiol o gerddoriaeth fyw, dramaù llwyfan, dawns a digrifwyr. Hyd heddiw, gallwch weld ffilm yn y sinema weithredol hynaf hon yn y DU, sydd bellach yn defnyddio technoleg ddigidol.



# HWYL I'R TEULU

Pengwiniad, pypedau, golff gwyllt, reidiau ffair a thraethau tywodlyd – mae ein hatyniadau arfordirol yn berffaith ar gyfer y teulu oll.



## SW FNYDD CYMRU

Bae Colwyn, 01492 532938  
[welshmountainzoo.org](http://welshmountainzoo.org)

Y sw gadwraeth ofalgar hon, a saif ar y bryniau coediog uchel uwchben Bae Colwyn, yw'r lle perffaith i weld bob un o'ch hoff anifeiliaid, ac i ddod i adnabod ambell un newydd. Mae'n gartref i sawl rhywogaeth mewn perygl o bob rhan o'r byd, gan gynnwys llewpartiaid yr eira, pandas coch a theigrod Swmatra. Mae ar agor drwy'r flwyddyn, bob dydd ar wahân i Ddydd Nadolig. Gwasanaeth tymhorol Bws Mini'r Sw am ddim o orsaf Bae Colwyn. Gweler y wefan am fanylion ac oriau agor.



## THEATR BYPEDAU'R HARLEQUIN

Llandrillo-yn-Rhos  
 01492 548166  
[puppets.uk.com](http://puppets.uk.com)

Mae theatr gyntaf Prydain a gynlluniwyd yn arbennig ar gyfer pypedau, wedi bod yn diddanu cynulleidfaoedd o bob oed er 1958, ac mae'n dal i gynnal perfformiadau rheolaidd hyd heddiw. Y tu ôl i'r llwyfan, cewch ddarganfod y pypedwyr, stori'r theatr a thraddodiad y pypedau. Ewch i'r wefan i weld amseroedd a dyddiadau'r sioeau.

## ADVENTURE TRAIL

Adventure Park, Llansan Siôr  
 Abergelge 01745 361368  
[adventuretrail.wales](http://adventuretrail.wales)

Anturiwch drwy goetir hardd a phrofwch natur ar ei gorau gyda mwy na 40 o heriau hwyliog! Mae yma ddigon o fannau picnic, felly cofiwch bacio gwledd a mwynhau ychydig o awyr iach a gweithgareddau llawn hwyl. Gweler y wefan am amseroedd agor.



## TOTALLY APE

Hen Golwyn,  
 01492 518484  
[facebook.com/TotallyApe](https://facebook.com/TotallyApe)

Canolfan chwarae meddal dan do ar gyfer plant gyda dwy ffrâm bach a'r brif ffrâm fwy i blant hŷn gael dringo, llithro a chwilota. Ewch i'r wefan i weld yr amseroedd agor.



## TIR PRINCE

Towyn, 01745 345123  
[tirprince.co.uk](http://tirprince.co.uk)

Profwch wefr rasio harnais dull Americanaidd, gan gynnwys rasyd llifoleuedig gyda'r nos yn y safle adloniant hwn. A phe na bai hynny'n ddigon, ceir ffair gyda reid ffigar-êt, trac gwibgertio ynghyd â marchnad awyr agored. Ewch i'r wefan am amseroedd agor a dyddiadau'r rasyd.

## CANOLFAN HAMDDEN ABERGELE

Abergelge, 01492 577940  
[conwy.gov.uk/leisure](http://conwy.gov.uk/leisure)

Mae'r ganolfan hamdden ardderchog hon yn cynnig gwersi nofio i bob oedran yn y pwll 25 medr, lle gallwch roi cynnig ar snorcelu ac aerobeg dŵr. Hefyd, ceir yno ystafelloedd fftrwydd a chae pob tywydd.



## PARC HWYL KNIGHTLY'S

Towyn  
[knightlysfunparks.com](http://knightlysfunparks.com)

Gwnewch eich gwyliau'n fythgofiadwy yn y ffair a'r parc difyrion cyffrous hwn. Ceir bob math o reidiau i'r teulu oll ynghyd ag adloniant i bawb ei fwynhau. Ffair ffantastig, arcêd difyrion, bar, bwty, a gardd flodau hardd. Ewch i'r wefan i weld yr amseroedd agor.

## GOLFF 'MINI' RHOS FYNACH

Llandrillo-yn-Rhos  
 01492 548185  
[rhosfynach.co.uk/golf.htm](http://rhosfynach.co.uk/golf.htm)


Atyniad arall i'r teulu yw cwrs Golff 'Mini' Rhos Fynach. Cwrs golff gwyllt gyda thema forwrol llawn hwyl, a chanddo dyllau sy'n cynnwys 'The Surfboard', 'Pirate's Skull' a 'Submarine'. Hwyl aruthrol i'r teulu oll.



## COFIWCH!

Gall amseroedd agor a chyfleusterau newid heb rybudd felly cysylltwch â'r atyniadau unigol cyn cychwyn.





# GOLFF

## CLWB GOLFF ABERGELE

Abergele, 01745 824034  
[abergelegolfclub.co.uk](http://abergelegolfclub.co.uk)  
 Cwrs parcdir 18 twll.



## CLWB GOLFF LLANDRILLO- YN-RHOS

Bae Penrhyn, 01492 549641  
[rhosgolf.co.uk](http://rhosgolf.co.uk)  
 Cwrs parcdir 18 neu 9 twll.



## CLWB GOLFF HEN GOLWYN

Hen Golwyn, 01492 515581  
[oldcolwyngolfclub.co.uk](http://oldcolwyngolfclub.co.uk)  
 Cwrs golff doldir 9 twll.



## CLWB GOLFF A GOLFF-TROED Y FEDWEN ARIAN

Betws yn Rhos  
 01492 680690  
[silverbirchgolfclub.co.uk](http://silverbirchgolfclub.co.uk)



Dau gwrs 9 twll y gellir eu cyfuno i greu rownd o 18 twll. Y cwrs golff-troed 18 twll cyntaf yng Nghymru.

## COFIWCH!

Gall amseroedd agor a chyfleusterau newid heb rybudd felly cysylltwch â'r atyniadau unigol cyn cychwyn.



# EIRIAS

Parc Eirias, Bae Colwyn  
 Conwy LL29 7SP  
 01492 577900  
[erias@conwy.gov.co.uk](mailto:erias@conwy.gov.co.uk)  
[www.conwy.gov.uk](http://www.conwy.gov.uk)

Eirias Park, Colwyn Bay  
 Conwy LL29 7SP  
 01492 577900  
[erias@conwy.gov.co.uk](mailto:erias@conwy.gov.co.uk)  
[www.conwy.gov.uk](http://www.conwy.gov.uk)



**Dewch i weld  
y cyfleusterau  
ardderchog yn Eirias.  
Wedi'i leoli mewn 50  
erw o barcdir hardd,  
mae'n lle cyfleus,  
ychydig funudau  
o'r A55.**

## PARC EIRIAS

Mae Parc Eirias yn ardderchog ar gyfer teuluoedd. Wedi'i leoli mewn 50 erw o barcdir hardd sy'n cynnwys llyn cychod, cyrtiau tenis dan do ac yn yr awyr agored, lawntiau bowlio, lle chwarae antur i blant, a man chwaraeon olwynion.

## CANOLFAN HAMDDEN COLWYN

Mae'r cyfleusterau ardderchog yn cynnwys pwll nofio 25 medr a chanddo chwe lôn, gyda nodweddion dŵr a llithren ddŵr ar wahân, ystafelloedd ffitrwydd a neuadd chwaraeon amlbwrpas. Ar agor drwy'r flwyddyn.



## STADIWM ZIP WORLD

Y stadiwm yn Eirias yw'r lleoliad perffaith ar gyfer digwyddiadau chwaraeon o'r radd flaenaf a chyngherddau awyr agored. Ceir cae rygbi a phêl-droed, yn ogystal â thrac athletau. Mae'n dal i fod yn gartref i gemau rygbi rhyngwladol dan 20 oed Pencampwriaeth y Chwe Gwlad.

## CANOLFAN DDIGWYDDIADAU EIRIAS

Mae Canolfan Ddigiwyddiadau Eirias yn cynnig yr hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer bob math o ddigiwyddiadau, o arddangosfeydd a chynadledau i ddiwrnodau adeiladu tîm a chyngherddau.





# GWEITHGAREDDAU AC ANTURIAETHAU

## Ewch Amdani



O ran gweithgareddau a thipyn o antur, ni fyddwch fyth yn brin o bethau i'w gwneud yn y rhan hon o'r byd. Ceir dewis o chwaraeon i bwmpio'r adrenalín a'r galon, teithiau cerdded ar hyd yr arfordir hardd, rownd heriol o golff- troed, jet-sgïo a barcudfyreddio. Dewch, rhowch gynnig arni!

### CHWARAEON DŴR BAE COLWYN

Porth Eirias, Bae Colwyn  
01492 437177

[colwynbaywatersports.co.uk](http://colwynbaywatersports.co.uk)

Mae Chwaraeon Dŵr Bae Colwyn yn cynnig cyrsiau hwylio, hwylyfyrddio a chychod modur, yn ogystal â llogi offer hwylio, hwylyfyrddio, caiacs, can w'od ac offer SUP. P'un a ydych yn ddechreuwr llwyr sydd eisiau rhoi cynnig ar y chwaraeon, neu eich bod eisiau mynd allan ar y dŵr i ymarfer, traeth Bae Colwyn yw'r lle perffaith i ddechrau. Ewch i'r wefan i weld yr amseroedd agor.

### TRIPIAU PYSGOTA MŌR

Llandrillo-yn-Rhos

Ewch am drip ar gwch siarter gyda chapten profiadol (os yw'r tywydd yn ffafriol wrth gwrs!). Yn dibynnu ar y tymor, gallwch bysgota'r glannau am bysgod gwynion, penfreision ifainc, draenogiaid, mecryll a mwyl. Neu mentwrch yn bellach allan am forleisiaid, penfreision, llysywod pendwll a chelogiaid. Gweler yn lleol am fanylion.

### PYSGODEFA FRITHYLL TAN-Y-MYNYDD



Moelfre, Abergelle, 01745 826722  
[tan-y-mynydd.co.uk](http://tan-y-mynydd.co.uk)

Yn y bysgodfa frithyll hon sydd wedi'i hen sefydlu, ceir pum llyn yn nhawelwch cefn gwlad. Hafan ar gyfer pysgota â phlu ac i roi sgiliau'r pysgotwr gorau ar waith, neu lle delfrydol i ddechreuwr gael hwyli. Ar agor bob dydd, o fore gwyn tan nos ar wahân i Ddydd Nadolig.





# PWMPIWCH YR ADRENALIN!

## LLITHRFEYDD AR GYFER LANSIO AR YR ARFORDIR

Swyddfa'r Harbwr, Conwy  
01492 596253

Gallwch lansio eich cwch o sawl lleoliad ar hyd yr arfordir gan gynnwys Llithrfa Porth Eirias, Llithrfa Bae Colwyn (cychod modur yn unig gan gynnwys badau dŵr personol) ac Aberhod, Llandrillo-yn-Rhos (cychod hwylio yn unig). Rhaid talu ffi a chael yswiriant priodol. Am ragor o fanylion ewch i:

[conwy.gov.uk](http://conwy.gov.uk)

## CLWB SGÏOJET BAE COLWYN

Bae Colwyn  
[colwynjetski.com](http://colwynjetski.com)

Mae'r clwb cyfeillgar hwn yn annog pobl i ddefnyddio badau dŵr personol mewn ffordd ddiogel ac mae'n darparu hyfforddiant RYA i aelodau, ar y safle, gan hyfforddwy'r cymwys.



## ADVENTURE PAINTBALL



Llan San Siôr, Abergele  
01745 361368  
[adventurepaintball.co.uk](http://adventurepaintball.co.uk)

Os mai eich syniad chi o hwylio yw rhedeg ar ôl eich ffrindiau o gwmpas coedwig, gyda dim ond gwn pledu paent a'ch meddwl ar waith, yna Adventure Paintball yn Abergele yw'r peth i chi. Dyma'r lle i fynd iddo os yw senarios gemau o'r enw 'The Grave Yard', 'The Lost Uranium' a 'Sam Missile Base' yn gwneud i'ch calon rasio! Byddwch yn barod i bledu neu i gael eich pledu!

## YSGOL BARCUDFYRDDIO GOGLEDD CYMRU

Bae Cinmel 07799 532725  
[kiteboardinglessons.co.uk](http://kiteboardinglessons.co.uk)

Gwersi barcudfyrrddio a redir gan hyfforddwr barcudfyrrddio IKO ar 3 milltir o draeth tawel. Ewch i'r wefan i gael manylion ac i archebu lle.



# YMUNWCH YN Y GWEITHGAREDDAU



## CERDDED GWASANAETH CEFN GWLAD CONWY

01492 575200, [conwy.gov.uk/cefnngwlad](http://conwy.gov.uk/cefnngwlad)

Mae llwybrau lleol poblogaidd yn cynnwys Coedwig Pwlycrochan, Fairy Glen yn Hen Golwyn a Bryn Euryn uwchben Llandrillo-yn-Rhos. Mae tafenni ar gael yn lleol neu ewch i'r wefan am ragor o wybodaeth.



## LLWYBR ARFORDIR CYMRU

Rhowch eich esgidiau am eich traed ac ewch am dro. Mae Llwybr Arfordir Cymru, sydd wedi cael llawer ganmoliaeth, yn ymestyn dros 870 o filltiroedd morlin cyfan Cymru. Mae ein rhan ni - y 34½ milltir rhwng Bae Cinmel a Llanfairfechan, yn llawn uchafbwyntiau. Ewch i draeth caregog Pensarn (SoDdGA), chwilotwch am fywyd gwylt ar lethrau'r Gogarth, a dewch wyneb yn wyneb â chastell grymus Conwy, sy'n safle Treftadaeth y Byd.

[conwy.gov.uk/cefnngwlad](http://conwy.gov.uk/cefnngwlad)

## PŴER PEDLO

Llwybr Beicio Cenedlaethol 5 yw ei enw swyddogol, ond mae'n fwy cyfarwydd i ni fel y Llwybr beics arfordirol rhwng Llanfairfechan a Bae Cinmel. Mae'r rhan fwyaf o'r llwybr yn ddiraffig, a gallwch ymuno ag ef mewn sawl man ar hyd y ffordd. Dyma un o'r ffyrdd gwyrddaf o weld

ein harfordir a'n cefn gwlad. Ewch draw i Ganolfannau Croeso Conwy neu Llandudno i gael copi o Fap Llwybr Beicio Conwy, neu lawrlwythwch gopi o [dewchigonwy.org.uk](http://dewchigonwy.org.uk)





# Gwarchodfa Natur Leol BRYN EURYN

Cerdded a Bywyd Gwylt



- Golygfeydd gwych
- Yn agos i Landrillo-yn-Rhos
- Llauer o fywyd gwylt
- Adfeilion hanesyddol



Mae nifer o lwybrau da o amgylch y bryn calchfaen anlwg hwn sy'n edrych dros Landrillo-yn-Rhos. Ceir cymysgedd gyfoethog o laswelltir a choetir yma ac mae rhan o Fryn Euryn yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae llauer o hanes yn perthyn i'r ardal hefyd gyda Llys Eurn yn dyddio o'r bymthegfed ganrif a bryngaer o'r chweched ganrif.

Dilynwch y llwybrau sydd wedi'u dynodi i ddarganfod glöynnod byw hardd, blodau gwych ac adfeilion hanesyddol.

Rheolir Bryn Euryn gan Wasanaeth Cefn Gwlad Conwy fel Gwarchodfa Natur Leol. Am wybodaeth a thafenni am amrywiaeth o deithiau cerdded yn Sir Conwy, ewch i [www.conwy.gov.uk/cefnwald](http://www.conwy.gov.uk/cefnwald)

Cofiwch gadw at y Cod Cefn Gwlad a sicrhau bod eich ci dan reolaeth.

## Llwybr y Copa

Mae'r llwybr cylch hwn sydd wedi ei gyfeirbwyntio yn mynd â chi heibio i adfeilion plasty Llys Eurn, drwy goetir a thiroedd gleision, i'r fryngaer hanesyddol ar y copa, efo'i golygfeydd panoramig, ac yn ôl i'r man cychwyn yn y maes parcio. Mae'r llwybr tua milltir o hyd a chyd rhywfaint o waith dringo/cerdded i lawr ellydd serth, sy'n gallu bod yn llithrig ar ôl iddi fod yn bwrw glaw, felly bydd rhaid i chi wisgo esgidiau cryfion. Dilynwch y saethau gwyrdd o fynedfa'r maes parcio.

## Llwybr y Goedwig

Mae'r llwybr cylch hwn sydd wedi ei gyfeirbwyntio yn dilyn Llwybr y Copa i ddechrau, wedyn yn parhau trwy'r goedwig, efo llai o waith dringo/cerdded i lawr ellydd serth, ac yn ôl i'r man cychwyn yn y maes parcio. Mae'r llwybr tua milltir a hanner o hyd. Dilynwch y saethau coch o fynedfa'r maes parcio.


Er yn gyfyng, mae mynediad i scwteri symudol yn bosib trwy dilyn damau o'r llwybr. Ffoniwch 01492 575200.

Dilynwch Y Còd Cefn Gwlad os gwelwch yn dda  
Parchwch • Diogelwch • Mwynhewch

## Hanes

Mae Llwybr y Copa yn mynd â chi heibio i blasty Llys Eurn yn sy'n dyddio'n ôl i'r bymthegfed ganrif, llys a fu unwaith yn destun cerddi beirdd. Hefyd, mae'n eich arwain at fryngaer o'r chweched ganrif sydd ar gopa Bryn Eurn, efo'i golygfeydd panoramig. Cafodd y copa ei ddefnyddio gan yr Awyrlu Brenhinol yn ystod y rhyfel. Mae hanes y ddau safle ar fyrddau sydd wedi eu lleoli ar y safleoedd.

Roedd Bryn Eurn wedi ei amgylchynu gan gefn gwlad hyd yn oed 200 mlynedd yn ôl, ac roedd pentrefannau bychain ym Mochdre, Rhos, Llysfaen a Cholwyn; ond erbyn hyn mae'n ynys ymysg tai. Ar y bryn ei hun, mae'n ddiddorol nodi nad oedd unrhyw brysgwydd ar y copa ym 1948, ond erbyn hyn mae wedi ei orchuddio â drain duon.



← Dineirth - y gaer fel yr oedd, o bosib, yn ymddangos yn y chweched ganrif

## Blodau

Mae gan Fryn Eurn amrywiaeth cyfoethog o flodau gwyllt yn y tiroedd gleision a'r coetiroedd, sydd yn ffynnu yn y pridd bras calchog yma. Mae'r tiroedd gleision yn ddigon gwerthfawr i fod wedi eu dynodi fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ac mae'r bryn cyfan wedi cael ei ddynodi'n Warchodfa Natur Leol, i gydnabod ei fywyd gwyllt gwych a'i werth i'r gymuned.

Mae blodau'r coetiroedd ar eu gorau yn y gwanwyn, ac maent yn cynnwys blodau'r gwynt, bresych y cŵn, suran y coed a mapgoll. Yn y rhannau mwy llaith o'r goedwig, mae tafod yr hydd yn doreithiog a deniadol. Mae'r tiroedd gleision yn blodeuo drwy'r haf - heblaw am y briallu Mair yn y gwanwyn - ac mae'r rhywogaethau nodweddiadol yn cynnwys rhosynnau'r graig, plucan, llysiâu'r cywair, ysgall dreinwyn a them gwyllt. Lle mae'r graig yn agos at yr wyneb, gellir gweld y cor-rosyn lledlwyd a'r gludlys gogwyddol sy'n brin drwy'r wlad. Mae nifer o degeiriannau yma gan gynnwys tegeirian porffor y gwanwyn, tegeirian bera a thegeirian y waun. Planhigyn diddorol nad yw wedi ei ddarganfod ar y bryn yn ddiweddar yw'r gorfandl eiddew. Nid oes iddo unrhyw liw gwyrdd ac mae'n barasitig ar wreiddiau eiddew. Hefyd, mae llwyni a choed anghyffredin ar y bryn, fel aeron y bisgwydden, yr ywen, merywen a chlust yr ewig.



Diolchiadau am y llun: Everyday Nature Trails @ <https://theresagreen.me/>

## Glöynnod Byw

Mae'r blodau'n cynnal amrywiaeth gwyb o drychfilod. Mae chwech ar hugain o wahanol fathau o löynnod byw wedi eu cofnodi ar y bryn. Yn y coed, fe sylwch ar frithod y coed. Ar y llecynnau caregog, fe welwch lwydiaid y fagwyr a glöynnod llwydion. Mae'n bosibl y gwelwch lwydion y ddôl a ier bach y ffridd yn hedfan rhwng y glaswellt, gyda llwyd bach y ddôl yn hedfan drwy'r mieri a'r eithin. Mae'n bosibl y gwelwch fentyll cochion a glöynnod yr ysgall, sydd wedi mudo o Ganol Ewrop a Gogledd Affrica, ger y copa ym mis Mai a mis Mehefin. Mae darganfyddiadau lliwgar eraill yn cynnwys ier bach llygadog, glöynnod trilliw bach, copors bach a'r glesyn cyffredin. Gwyfyn y mae'n bosibl y gwelwch ef yn hedfan yn ystod y dydd yn yr haf yw'r bwrned chwe smotyn hardd. Mae ganddo adenydd gwyrdd tywyll efo smotiau cochion ond mae'n edrych fel gwyfyn aneglur rhuddgoch pan fo'n hedfan. Mae ei lindys yn bwydo ar bys ceirw toreithiog, a gellir dod o hyd i'w gocynau melyn gwelw nodweddiadol ar goesau planhigion.




Brith y coed



Bwrned chwe smotyn

## Daeareg

Meddylwch am foroedd trofannol a riffiau cwrel! Dyma'r amgylchiadau 350 miliwn o flynyddoedd yn ôl pan ffurfiwyd carreg galch Bryn Euryn allan o weddillion cronedig a chywasgedig creaduriaid y môr. Cafodd y garreg galch ei hystumio gan weithgaredd folcanig a symudiadau'r ddaear, ac ymgorfforwyd gwythiennau o fwynau yn y graig. Yn fwy diweddar, tua 12,000 o flynyddoedd yn ôl yn ystod yr Oes yr Iâ olaf, cafodd y creigiau mwy meddal eu sgwrio allan gan rewlifoedd anferth, gan adael y dyffrynnoedd sydd o amgylch Bryn Euryn a'r clogwyni serth ar yr ochr ddeheuol.



Llys Euryn fel roedd yn ymddangos tua'r flwyddyn 1600.

## CANOLFANNAU CROESO



Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth wrth gynllunio eich gwyliau neu ar ôl i chi gyrraedd yma, cysylltwch neu ymwelwch ag un o'n Canolfannau Croeso.

## AR AGOR DRWY'R FLWYDDYN

### LLANDUDNO:

Uned 26, Canolfan Victoria, Mostyn Street, Llandudno, LL30 2NG  
ffôn: (01492) 577577

### CONWY:

Adeiladau'r Muriau, Rosehill Street, LL32 8LD  
ffôn: (01492) 577566

## PWYNT GWYBODAETH I DWRISTIAID

Llandrillo-yn-Rhos: Canolfan Happy Faces, Y Promenâd, LL28 4EP

## TEITHIO O AMGYLCH

Pam na wnewch chi adael y car yn lle mae o, ymlaciwch a mwynhewch y golygfeydd drwy ddefnyddio ein rhwydwaith o fysiau a threnau. Ceir manylion llawn yn yr Arweinyfr Cludiant Cyhoeddus sydd ar gael yn y Canolfannau Croeso. Ffoniwch **Traveline Cymru** ar **0800 464 00 00** Neu ewch i **traveline.cymru**: y wefan cynllunio teithiau ac amserlenni ar gyfer cludiant cyhoeddus yng Nghymru.



Os ydych yn chwilio am wybodaeth am Landudno, Conwy a Dyffryn Conwy, ewch i nôl copiâu o'r Arweinyfrau Poded Hanfodol hyn o'r Canolfannau Croeso, neu e-bostiwch:

[tourism@conwy.gov.uk](mailto:tourism@conwy.gov.uk)



### Cyhoeddwyd gan:

Tim Marchnata Twristiaeth  
Gwasanaeth Datblygu Cymunedol  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy  
Adeilad y Llyfrgell, Mostyn Street  
Llandudno, LL30 2RP  
ffôn: 01492 575945 / 575950  
© Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

### Dyluniwyd gan:

View Creative  
37 Rhos Road, Rhos-on-Sea, Conwy, LL28 4RS.  
t: 01492 542400 [www.viewcreative.co.uk](http://www.viewcreative.co.uk)

### Diolchiadau am y lluniau:

Fotograffiaeth Alan Dop, Huw Evans Agency Freelance Photos North Wales, Yvonne Gale, Martin Lyons, PM Photography, © Hawfrait y Goron (2018) Croeso Cymru, Matt Wilcox.



Er bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau cywirdeb y cyhoeddiad hwn, ni all y Cyngor dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw wallau, camgymeriadau neu hepgoriadau nac am unrhyw fater sydd mewn unrhyw ffordd yn gysylltiedig â neu'n codi o gyhoeddi'r wybodaeth yn y llyfryn hwn.

# BAE COLWYN

## ATYNIADAU A LLEFYDD O DDIDORDEB

- 1 Llyn Hwyllo ..... G11
- 2 Canolfan Tennis ..... F11
- 3 Parc Eirias - Lawntiau Bowlio ..... G10
- 4 Canolfan Hamdden Colwyn ..... H11
- 5 Llyfrgell ..... E7
- 6 Marchnad Stryd Bae Colwyn (Mawrth a Sadwrn) Ffordd yr Orsaf a Sea View Road ..... E7/E8
- 7 Pwll Cychod ..... G12
- 8 Coedwig Pwllcrochan (Tait'h Natur) ..... G4
- 9 Porth Eirias - (Canolfan Chwaraeon Dŵr, Bistro a Chaffi) ..... E10
- 10 Gerddi Queens (Gwobr y Faner Werdd) ..... E6
- 11 Canolfan Siopa Bay View ..... E8
- 12 Eirias (Canolfan Ddwyddiadau a Stadiwm Zip World) ..... H11
- 13 Theatr Colwyn/Sinema/Oriel Colwyn ..... F8
- 14 Sw Fynydd Cymru ..... F1
- 15 Cyfleusterau chwarae ar olwynion yn addas ar gyfer BMX, byrddau sgrialu, sglefrio llinell a sgwteri ..... H11

## EGLWYSI A MANNAU ADDOLI

- (Nifer mewn cromfachau'n cyfeirio at eglwysi)
- Bedyddwyr ..... (1) D7, (2) G7, (3) F8
  - Eglwys yng Nghymru ..... (4) D3, (5) F7, (6) F7
  - Annibynwyr ..... (7) F8
  - Methodistaidd ..... (8) F7, (9) H9, (10) E6
  - Presbyteriaidd ..... (11) E6, (12) B3
  - Catholig ..... (13) D5
  - Tŷ Cwrdd Cymdeithas y Crynwyr ..... (14) F9

## ALLWEDD SYMBOLAU

- 20 Atyniad / Lle o Ddiddordeb
- ★ Swyddfa Bost
- Stryd Unffordd
- P Maes Parcio Talu ac Arddangos
- P Parcio Glan y Môr Talu ac Arddangos 10am-4pm Dydd Llun i ddydd Sul yn gynhwysol. Parcio AM DDIM rhwng 4pm-10am
- Gorsaf Betrol
- Toiledu
- Toiled hygyrch gyda chlo Cynllun Allwedd Cenedlaethol (RADAR)



Bae Colwyn  
Colwyn Bay

